

# Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed

---

**Mudiad Efengylaidd Cymru**

Mudiad Efengylaidd Cymru, Swyddfa'r Gogledd,  
31 Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2EU  
01248 354653      [swyddfa@mudiad-efengylaidd.org](mailto:swyddfa@mudiad-efengylaidd.org)  
Rhif Elusen 222407  
Cwmni Yswiriant: CBP9052791

# Rhan 1

---

## Natur a sail ein gwaith

### A. Natur a Gwaith Mudiad Efengylaidd Cymru

Cymdeithas o unigolion ac eglwysi yw Mudiad Efengylaidd Cymru (MEC). Mae MEC yn ceisio hyrwyddo efengyl Iesu Grist drwy efengylu, cyhoeddiadau, gwerysilloedd, cynadleddau, cyrsiau a siopau llyfrau. Mae MEC yn ceisio cynnal unigolion, gweinidogion, eglwysi a mudiadau sy'n rhannu'r un amcanion.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yw ymddiriedolwyr MEC, ac mae ganddyn nhw gyfrifoldeb llawn a therfynol dros weithgareddau MEC. Maen nhw'n dirprwyo cyfrifoldebau am weithgareddau i amrywiol bwyllgorau a phobl. Er enghraifft, mae gwerysilloedd MEC yn cael eu trefnu gan ddau bwyllgor gwerysilloedd (Cymraeg a Saesneg). Isod fe welwch restr o enwau pobl sydd â chyfrifoldebau penodol o fewn MEC (mae diffiniad llawn isod).

Ysgrifennydd Cyffredinol	Mark Thomas
Cadeirydd y Pwyllgor Gwerysilloedd Saesneg	Andy Pitt
Cadeirydd y Pwyllgor Gwerysilloedd Cymraeg	Gwydion Lewis
Cydllynydd Gweinyddol	Steffan Job
Ymddiriedolwr â chyfrifoldeb lechyd a Diogelwch	Steve Webster
Ymddiriedolwr â chyfrifoldeb digwyddiadau	Jeremy Bailey
Ymddiriedolwr â chyfrifoldeb gwerysilloedd	Andy Pitt

### B. Sail Feiblaidd ein Gwaith Plant

Mae pob bod dynol wedi ei greu ar lun a delw Duw. Dyma ei rodd i ni mewn plentyndod yn ogystal â fel oedolion. Yn ein byd syrthiedig ni, mae delw Duw wedi ei lygru. Mae hanes pobl Dduw yn dangos sut y gwnaethon nhw grwydro o'i gynlluniau Ef. Galwodd Duw bobl i

gyhoeddi ei neges i genedl ar ôl cenedl; yn eu plith roedd dynion ifanc fel Samuel a Jeremeia (1 Sam. 3; Jer. 1:4-8). Pan wnaeth Jeremeia geisio defnyddio'i oed fel esgus, fe wnaeth Duw ei gywiro: "Paid â dweud, 'Plentyn wyf'."

Mae genedigaeth Crist, ei blentyndod a'i fagwraeth o fewn teulu yn cadarnhau'r urddas a'r gwerth roddodd Duw ar blant. Mae profiad Duw o blentyndod yn rhan o'r broses o'n hachub. Cwblhawyd y broses gan fywyd a marwolaeth Crist fel oedolyn. Mae plentyn yn berson cyflawn, â ganddo hawliau ac anghenion. Mae plant i'w trysori a'u parchu gan bawb.

Felly, mae plant yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned Gristnogol. Ond maen nhw'n agored i niwed ac felly'n haeddu gofal arbennig. Rydyn ni'n cymryd geiriau Crist o ddifri', pan ddywedodd e y dylen ni groesawu plant (Luc 9:48), amddiffyn plant (Math. 18:6-10) a chaniatáu iddyn nhw ddod yn rhydd ato Fe (Marc 10:13-16).

# Rhan 2

---

## Unigolion â chyfrifoldebau o fewn MEC

Mewn argyfwng diogelu neu am gyngor am ddiogelu cysylltwch â:

### A. Swyddog Diogelu

**Andy Pitt** (Ymddiriedolwr â chyfrifoldeb gwersylloedd)

01685 370452

07546 488861

[pittandrew2@gmail.com](mailto:pittandrew2@gmail.com)

### B. Dirprwy Swyddogion Diogelu

Os nad yw'r Swyddog Diogelu ar gael, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Parry Davies**

01267 232746 (C)

07495 992055 (S)

[aparrydavies@btinternet.com](mailto:aparrydavies@btinternet.com)

**Gwydion Lewis** (Cadeirydd y Pwyllgor Gwersylloedd Cymraeg)

01678 520752 (C)

07749 248200 (S)

[brynygroes@emw.org.uk](mailto:brynygroes@emw.org.uk)

*Os na fedrwch gysylltu ag un o'r uchod, dylech gysylltu â swyddfa MEC.*

*Fe fyddan nhw'n ceisio sicrhau eich bod chi'n cael rhif cyswllt ar gyfer cefnogaeth a chyngor cyfrinachol.*

**Steffan Job** (Cydlynnydd Gweinyddol)

Mudiad Efengylaidd Cymru, 31 Ffordd Caergybi, Bangor LL57 2EU

01248 354653 (G)

01248 361177 (C)

07484297015 (S)

[steffanjob@mudiad-efengylaidd.org](mailto:steffanjob@mudiad-efengylaidd.org)

Mae'r Swyddog Diogelu yn gyfrifol am oruchwylio a gweithredu'r polisi hwn a'i adolygu'n flynyddol.

Mae'r Swyddog Diogelu yn atebol i Fwrdd Rheoli MEC, sydd gyda'r cyfrifoldeb terfynol dros y polisi hwn.

Mae manylion pellach ynglŷn â'r Swyddog Diogelu yn Rhan 10.

### **C. Gweinyddiaeth Diogelu**

Am wybodaeth ynglŷn â'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r polisi a'r drefn diogelu cysylltwch â staff swyddfa MEC.

**Steffan Job** (Cydlunydd Gweinyddol)

Mudiad Efengylaidd Cymru, 31 Ffordd Caergybi, Bangor LL57 2EU

01248 354653 (G)

01248 361177 (C)

07484297015 (S)

[steffanjob@mudiad-efengylaidd.org](mailto:steffanjob@mudiad-efengylaidd.org)

# Rhan 3

---

## Diffiniadau

Dyma ddiffiniad o'r termau a ddefnyddir yn y polisi hwn:

- **Plentyn/plant** – y rhai hynny dan ddeunaw oed ac oedolion agored i niwed.
- **Gweithiwr/gweithwyr** – staff a gwirfoddolwyr sydd â chyswllt cyson a/neu ddwys â phlant. Mae dau lefel o weithiwr:
  - **Arweinydd/arweinwyr** – y rhai sydd â chyfrifoldeb terfynol dros weithredu achlysuron/gweinidogaethau o ddydd i ddydd.
  - **Swyddog/swyddogion** – aelodau o'r tîm mewn achlysur/gweinidogaeth sy'n atebol i'r arweinydd.

# Rhan 4

---

## Datganiad Cenhadaeth

Mae MEC wedi ymrwymo i les corfforol, emosiynol ac ysbrydol yr holl blant sydd yn ein gofal. Rydyn ni'n ceisio cwrdd â'u hanghenion mewn amgylchedd diogel.

Byddwn yn gwneud ein gorau i amddiffyn plant rhag camdriniaeth a byddwn yn cymryd camau os byddwn yn amau bod camdriniaeth wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

Rhoddir cefnogaeth a goruchwyliaeth i'n holl weithwyr, a byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu.

# Rhan 5

---

## Polisi

Mae Polisi MEC yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol – *Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019*.

### A. Egwyddorion Cyffredinol

1. Hyfforddi gweithwyr a llunwyr polisi mewn materion diogelu plant.
2. Gweithredu'r gweithdrefnau diogelu plant y cytunwyd arnynt gyda'n holl weithwyr.
3. Rhoi swydd ddisgrifiadau a chyfrifoldebau clir i'n gweithwyr.
4. Cynllunio gwaith MEC mewn ffordd sy'n lleihau sefyllfaoedd lle y gallai cam-drin plant ddigwydd.
5. Defnyddio goruchwyliaeth fel ffordd o amddiffyn plant.
6. Cyhoeddi canllawiau ynglŷn â delio gydag achos o ddarganfod neu ddatgelu camdriniaeth.
7. Gweithredu system lle y gall plentyn siarad gyda pherson annibynnol priodol.
8. Bydd gweithwyr yn cydnabod eu bod yn gofalu am blant yn absenoldeb rhieni, a'u bod yn gweithredu *in loco parentis*, a byddant yn dilyn canllawiau MEC wrth ddelio â phlant.
9. Mae gan MEC Bolisiau Yswiriant ar gyfer eu gwaith plant.
10. Mae angen caniatâd priodol gan rieni yn enwedig ar gyfer achlysuron preswyl (gweler Rhan 6, Pwynt C isod).

## B. Apwyntio Gweithwyr (cyflogedig a gwirfoddol)

Rhaid i bob gweithiwr sydd â chyswllt cyson a/neu ddwys â phlant (trwy gefnogaeth adran weinyddol MEC):

- arwyddo datganiad eu bod yn cytuno â nod ac amcanion MEC;
- arwyddo datganiad pellach nad oes unrhyw beth sydd yn neu a allai olygu na allant weithio gyda phlant neu bobl ifanc;
- fod yn rhan o broses recriwtio sy'n dilyn yr arferion gorau.

Pan fydd MEC yn recriwtio gweithwyr byddant yn:

- Cael o leiaf dau eirda gan y gweithiwr (gan gynnwys arweinwyr a chaplaniaid). Lle mae'n bosib, dylai'r geirdaon bod o ddau sefydliad gwahanol. Un gan weinidog/henadur yr eglwys yn ystyried addasrwydd ysbrydol a phrofiad yr ymgeisydd o waith plant, a'r llall gan berson sydd â phrofiad uniongyrchol o'r ymgeisydd yn gweithio gyda phlant yn wirfoddol neu yn ei swydd. (Os nad oes gan yr ymgeisydd brofiad blaenorol o weithio gyda phlant, rhaid i'r canolwr allu tystio i gymeriad a pherthynas yr ymgeisydd gydag eraill).
- Sicrhau eu bod yn cael manylion holl swyddi blaenorol yr ymgeisydd.
- Cyn apwyntio gweithiwr bydd yn cynnal cyfweiliad (naill ai wyneb yn wyneb neu ar y ffôn) er mwyn holi'r ymgeisydd am ei brofiadau o weithio gyda phlant.
- Goruchwyllo gweithwyr newydd am gyfnod.
- Cael (a gwirio) geirda ar gyfer yr ymgeisydd ar ddiwedd gweithgaredd MEC.
- Gweithredu'r 'Regulated Activity Decision Making Flowchart'<sup>1</sup> wrth benderfynu os yw rôl gweithiwr angen Datgeliad Manwl DBS. Sicrhau bod Datgeliadau'r gweithwyr wedi rhoi gan



MEC o fewn pedwar blynedd ar y mwyaf cyn diwedd y gweithgaredd rheoledig maent yn gwasanaethu ar.<sup>ii</sup> Os yw gweithiwr wedi byw/gwasanaethu tu allan i'r DU, bydd angen i'r ymgeisydd dangos gwiriad o lefel debyg i system DBS y DU.

# Rhan 6

---

## Canllawiau a Gweithdrefnau

### A. Cyffredinol

Bydd gweithwyr MEC:

1. yn gwneud eu gorau i greu awyrgylch iach, gyfeillgar a diogel;
2. yn parchu pob plentyn;
3. byth yn defnyddio cosb gorfforol;
4. yn defnyddio dulliau priodol o ddisgyblu, fel y mae'r arweinwyr a'r swyddogion wedi cytuno arnynt;
5. yn cymryd gofal mawr os oes angen defnyddio ataliaeth gorfforol er mwyn atal plentyn rhag niweidio ei hun neu eraill (dylai ail swyddog fod yn bresennol os oes modd);
6. ddim yn goddef bwlio, a bydd yr arweinydd yn delio gyda'r mater mewn ffordd briodol;
7. yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn deall llwybrau cyfathrebu ac atebolrwydd;
8. yn gwneud ymdrech weithredol i:
  - osgoi sefyllfa lle y gallai gweithiwr gael ei gyfaddawdu neu ei gamddeall e.e. peidio bod ar ben ei hun gyda phlentyn os oes modd, ac osgoi cysylltiad corfforol anaddas;
  - sicrhau, pan fydd hynny'n bosibl, bod bechgyn yn cael eu cwnsela gan swyddog gwrywaidd, a merched yn cael eu cwnsela gan swyddog benywaidd. (Mewn amgylchiadau arbennig, e.e. os yw plentyn yn mynd i ddatgelu rhywbeth,

mae'r datgeliad yn bwysicach na cheisio dod o hyd i swyddog o'r un rhyw);

- gwnsela plentyn gyda swyddog arall yn bresennol; os na fydd hyn yn bosibl, dylid cwnsela mewn rhan dawel o ardal gyhoeddus;
- sicrhau, pan fydd hynny'n bosibl, i beidio mynd i mewn i ystafell gwely plant heb aelod arall o'r tîm yn bresennol, heblaw ar gyfer pwrpasau cytunedig megis astudiaethau Beiblaidd yr ystafell.

9. yn gwybod ble mae'r Pecyn Cymorth Cyntaf yn cael ei gadw a phwy sy'n gyfrifol am gymorth cyntaf.

## **B. Trafnidiaeth**

1. Rhaid gwisgo gwregys ddiogelwch bob amser.
2. Rhaid i'r arweinwyr fod yn fodlon gyda'r lefel o oruchwyliaeth wrth gludo plant. Pan fydd hynny'n bosibl dylai swyddog benywaidd deithio gyda merched, a swyddog gwrywaidd gyda bechgyn.
3. Wrth deithio mewn bws mini, dylai gweithiwr arall fod yn bresennol gyda'r plant ynghyd â'r gyrrwr.
4. Oni bai am eithriadau, ni ddylai gyrrwr gludo un plentyn ar ei ben ei hun.
5. Wrth deithio mewn car, dylid defnyddio clustog hybu (booster seat) ar gyfer plant dan 12 oed neu 135cm (4'5").
6. Dylai pob car sy'n cludo plant i achlysuron neu weinidogaethau gael yswiriant priodol.

## **C. Achlysuron preswyl**

1. Rhaid derbyn ffurflenni caniatâd a ffurflenni meddygol gan rieni/gwarcheidwaid.

2. Fel arfer ni fydd swyddogion yn cysgu yn yr un ystafell/pabell a phlant. Ond os oes rhaid i swyddog rannu ystafell/pabell gyda gwersyllwyr rhaid bod mwy nag un swyddog i'r ystafell/babell.
3. Rhaid i'r SDP fod yn ymwybodol o'r digwyddiad a darparu rhifau ffôn i'r arweinydd.
4. Ni ddylai plant ysgol gynradd gael caniatâd i fynd oddi ar y campws heb oruchwyliaeth barhaol swyddog.
5. Gall grwpiau o blant hŷn neu bobl ifanc fynd oddi ar y campws/safle:
  - os ydynt wedi derbyn caniatâd swyddogol y rhieni cyn yr achlysur;
  - os oes o leiaf 3 plentyn yn y grŵp;
  - os yw'r arweinydd wedi gosod trefn mewn lle ar gyfer cofnodi pryd fydd plant yn gadael a dychwelyd.
  - yn ddelfrydol dylid cynnal cysylltiad trwy gyfrwng ffonau symudol a rhifau ffôn lleol.
6. Ni ddylai gweithwyr cynnal cysylltiad personol gyda phlant ar ôl yr achlysur - naill ai ar y ffôn, mewn llythyr na mewn cyfarfyddiad uniongyrchol oni bai bod y rhieni wedi cytuno i'r peth o flaen llaw.

## Ch. Hygyrchedd

1. Dylai fod gan bob digwyddiad sy'n cynnwys plant ddau swyddog dynodedig (un gwryw ac un fenyw) y gellir eu hadnabod fel rhai sy'n gyswllt diogelu ar gyfer y plant.

# Rhan 7

---

## Camdriniaeth posibl

Mae plant yn gallu cael eu niweidio mewn sawl ffordd, ac mae'r categorïau wedi eu diffinio yn Neddf Plant 2004. Y dulliau mwyaf cyffredin o gamdriniaeth yw:

1. camdriniaeth gorfforol, gydag arwyddion fel cleisiau, torri esgyrn ac ati;
2. camdriniaeth emosiynol - e.e. Diffyg cariad, bygythiadau, iaith fychanol neu ddifriol;
3. camdriniaeth rhywiol, pan fydd oedolion yn defnyddio plant i'w boddhad rhywiol eu hunain (yn achlysurol bydd plant yn cam-drin plant eraill yn rhywiol, os ydyn nhw wedi cael profiad o gamdriniaeth rhywiol eu hunain);
4. esgeulustod, os na fydd anghenion plant yn cael eu cwrdd, ac os na fydd plant yn cael eu hamddiffyn.

Yn aml iawn bydd cyfuniad o'r uchod mewn achos o gamdriniaeth.

Efallai y bydd achos i amau camdriniaeth:

1. os oes gan blentyn lawer iawn o gleisiau, neu gleisiau anarferol (e.e. i'r wyneb), neu drawma arall;
2. os yw'r plentyn yn ymddwyn mewn ffordd drwblus (er gall fod sawl rheswm arall dros hyn);
3. os oes newid amlwg yn ymddygiad neu ymddangosiad plentyn e.e. mynd i'w gragen, mynd yn ofnus iawn, mynd yn fygythiol;
4. os yw'r plentyn defnyddio iaith sy'n anaddas i'w oed;
5. os yw'r plentyn yn gwneud lluniau rhywiol manwl.

Ond, rhaid bod yn **ofalus iawn**. Wrth yr **arweinydd yn unig** y dylech chi sôn am **unrhyw** amheumon (gweler rhan 8).

## Rhan 8

---

### Arweiniad penodol a chyfarwyddiadau

Os byddwch chi'n darganfod camdriniaeth, neu os bydd plentyn yn datgelu camdriniaeth, fe ddylech chi ymateb yn syth, ond mewn ffordd ddiffwdan, heb banig.

**Mae cyfrinachedd yn hollbwysig.** Dylai'r person sy'n dod o hyd i'r wybodaeth siarad gyda'r arweinydd yn unig, a neb arall.

Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant, ond ni ddylai gweithiwr geisio delio gyda'r mater ar ei ben ei hun.

- Ddylai'r gweithiwr ddim cynhyrfu, ond dangos sensitifrwydd i'r plentyn a derbyn yr hyn sydd ganddo i'w ddweud;
- Dylai'r gweithiwr wrando'n astud cyhyd ag sydd angen;
- Wrth ymateb, dylai'r gweithiwr aros yn niwtral ac ystyried yn ôl ar yr hyn a ddywedwyd;
- Dylai'r gweithiwr sicrhau'r plentyn ei fod/ei bod wedi gwneud y peth iawn wrth ddatgelu'r peth;
- Dylai'r gweithiwr ofyn, 'Wyt ti wedi dweud wrth rywun arall am hyn?'
- Dylai'r gweithiwr osgoi cwestiynau eraill na chroesholi i'r stori;
- Ddylai'r gweithiwr ddim dangos anghrediniaeth na gorsyndod;

- Ddylai'r gweithiwr ddim addo cadw'r peth yn gyfrinachol;
- Ddylai'r gweithiwr ddim siarad â, adroddi i, na gwneud sylw i'r rheini, i'r wasg nac unrhyw un arall, heblaw am arweinydd y gwersyll a Swyddog Diogelu MEC;
- Dylai'r swyddog esbonio beth fydd efallai'n digwydd nesaf, a phwy yw'r unig berson y byddwch yn rhannu'r wybodaeth ag ef, a'ch bod yn gwneud hynny er mwyn helpu;
- Dylai'r swyddog gofnodi'n union beth ddigwyddodd a beth ddywedwyd, mor fuan â phosibl ar ôl y digwyddiad, a'i lofnodi a'i ddyddio a'i rhoi i'r arweinydd;
- Ni ddylai'r swyddog gynnal cysylltiad personol gyda'r plentyn ar ôl yr achlysur – naill ai ar y ffôn, mewn llythyr na mewn cyfarfyddiad uniongyrchol oni bai bod y rhieni wedi cytuno i'r peth o flaen llaw.

# Rhan 9

---

## Cyfarwyddiadau penodol os oes gennych bryderon am gyd-weithiwr

Os yw gweithiwr yn pryderu fod cyd-weithiwr yn rhoi plant neu bobl ifanc mewn peryg – heb ots os taw gweithiwr cyflogedig neu anghyflogedig ydyw, yn wirfoddolwr newydd neu yn un brofiadol – mae yna ddyletswydd i RECORDIO a RIPORTIO.

Mae pobl sydd am achosi niwed i blant neu bobl ifanc yn debygol o: rhesymoli ei ymddygiad; gwneud ei hunan yn gredadwy iawn; edrych am ffyrdd i groesi'r ffiniau o beth sydd yn cyfrie fel ymddygiad derbyniol neu addas. Felly, mae'n anodd iawn gweld y gwahaniaeth rhwng rhywun dieuog sydd wedi anghofio ymarfer gorau ac ymddwyn yn anaddas, a rhywun sy'n edrych am y cyfle i wthio'r ffiniau. Oherwydd hynny, mae pob ymddygiad sy'n croesi'r llinell o beth sydd yn dderbyniol angen cael ei herio gan berson priodol.

Os oes pryderon gan weithiwr am gyd-weithiwr, **ni ddylent:**

- herio'r person maent yn pryderu am, neu gynnal ymchwiliad mewn i'r mater.

**Dylai'r gweithiwr:**

- Riportio ei bryderon i'r arweinydd yn syth, ac i neb arall. Bydd yr arweinydd yn gweithredu'n briodol;
- Recordio ei bryderon yn fuan wedyn a phasio hyn ymlaen i'r arweinydd;
- Os yw'r pryderon ynglŷn â'r arweinydd, dylai'r gweithiwr riportio i'r Swyddog Diogelu, a fydd yn gweithredu'n briodol;
- Os yw'r gweithiwr yn teimlo, ar ôl i'r polisi a'r trefniadau cael ei ddilyn, bod MEC wedi methu diogelu plant a/neu oedolion bregus, yna mae'r gweithiwr yn rhydd fel aelod o'r cyhoedd i



gysylltu â Thîm Diogelu Plant yr Adran Gwasanaethau  
Cymdeithasol.

# Rhan 10

---

## Cod Ymddygiad i Arweinwyr

Dylai Arweinydd:

1. sicrhau bod holl aelodau'r tîm wedi darllen y Polisi hwn, yn enwedig y Canllawiau a'r Gweithdrefnau, ac atgoffa'r tîm o'r rhain ar ddechrau'r achlysur;
2. roi cefnogaeth a goruchwyliaeth i weithwyr yn ystod yr achlysur;
3. dderbyn adroddiadau llafar ac ysgrifenedig gan y gweithwyr o bob amheuaeth am gyd-weithwyr, digwyddiad, cyhuddiad neu ddatgeliad gan weithwyr;
4. cymryd o ddifrif ei ddyletswydd i oruchwyllo ymddygiad y gweithwyr ac annog y gweithwyr i arddangos y safon uchaf yn ei ymddygiad. Os yw gweithiwr yn parhau i ymddwyn yn amhriodol, neu yn parhau ar ôl cael ei herio, heb ots os yw'n ymddangos yn fwriadol neu ddim, rhaid riportio i'r Swyddog Diogelu. Rhaid i **bob** achos ble mae gweithiwr yn achosi niwed i blentyn neu berson ifanc, neu lle mae ymddygiad a gweithredoedd gweithiwr yn creu risg o niwed i blant a phobl ifanc, cael ei riportio i'r Swyddog Diogelu;
5. Os oes ofid am ymddygiad y Swyddog Diogelu, neu aelod o'i deulu, rhaid riportio'r gofid i'r Dirprwy Swyddog Diogelu;
6. ddilyn cyngor y Swyddog Diogelu;
7. fod yn atebol i gadeirydd y pwyllgor sydd wedi trefnu'r achlysur.

**ON** Os yw'r arweinydd yn teimlo, ar ôl i'r polisi a'r trefniadau cael ei ddilyn, bod MEC wedi methu diogelu plant a/neu oedolion bregus,

yna mae'r gweithiwr yn rhydd fel aelod o'r cyhoedd i gysylltu â Thîm Diogelu Plant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

# Rhan 11

---

## Cod Ymddygiad ar gyfer y Swyddog Diogelu/Dirprwy Swyddog Diogelu

Swyddog Diogelu Plant MEC sy'n gyfrifol, dan y Bwrdd Rheoli, am oruchwyllo gweithredu'r Polisi. Mae hynny'n golygu:

1. Sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael gwybod am y Polisi hwn a'r Gweithdrefnau.
2. Sicrhau bod yr holl weithwyr wedi dilyn yr argymhellion, yn enwedig y Datgeliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol.
3. Sicrhau bod yr arweinwyr yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig.
4. Derbyn ymholiadau ac adroddiadau gan arweinwyr, a gofyn am adroddiadau ysgrifenedig.
5. Trafod y cam nesaf ymlaen, ar ôl trafod gyda'r Arweinydd.
6. Cael cyngor gan eraill os oes angen, e.e. Ymddiriedolwr y gweryslyoedd, Tîm Diogelu Plant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol – heb roi enwau.
7. Cyfeirio at asiantaethau statudol pan fydd angen: Gwasanaethau Cymdeithasol/Heddlu.
8. Adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr.
9. Sicrhau bod y Polisi a'r personél yn cael eu cadw'n gyfoes, cyhyd ag y bo hynny'n bosibl.
10. Bod yn gyfrifol a threfnu hyfforddiant personél.

# Rhan 12

---

## Ffurflenni enghreifftiol

Mae'r polisi hwn yn sôn am y ffurflenni canlynol:

1. Cyffes Ffydd
2. Ffurflen gais i weithwyr
3. Ffurflen geirdaon i weithwyr
4. Ffurflen caniatâd i rieni

Os hoffech gael golwg ar y ffurflenni cysylltwch â swyddfa MEC.

*Diweddariad Hydref 2020*

---



Regulated Activity  
Flow Chart.pdf

- i. .
- ii. Os oes angen Datgeliad Manwl ar weithiwr yn unol â'r 'Regulated Activity Flow Chart', bydd MEC yn blaenoriaethu gweithwyr sydd gyda Datgeliad Manwl sydd wedi'i diweddarau i fyny at dair blynedd cyn diwedd y gweithgaredd. Ni fydd gweithwyr yn cael ei gyflogi ar gyfer gweithgareddau rheoledig os darparwyd ei Datgeliad Manwl dros bedair blynedd cyn diwedd y gweithgaredd.